TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	02 Rhagfyr 2016
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	08 Rhagfyr 2016
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	16 Rhagfyr 2016

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

PWNC

Rhydd-ddaliad Ysgol Llwyngwril.

PENDERFYNIAD -
Gwerthu Rhydd-ddaliad Ysgol Llwyngwril.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Polisi OI-ddefnydd Ad-Drefnu Ysgolion.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Y gymuned leol
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Lowri Cadwalaladr Roberts Uwch Syrfewr Stadau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	02.12.2016
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	DMi

Pwnc :

Gwerthu rhydd-ddaliad Ysgol Llwyngwril.

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adbyddir fel safle Ysgol Llwyngwril ynghyd â'r tir cysylltiedig (a amlinellwyd yn goch ar y cynllun) yn cael ei werthu ar y farchnad agored ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Yn ei gyfarfod 15.09.2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Ad-Drefnu Ysgolion.

Cydnabyddai'r Polisi fod y Cynllun Ad-Drefnu Ysgolion yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth.

Penderfynwyd y byddai safleoedd sydd yn cael eu datgan yn weddill i anghenion yn sgil y Cynllun Ad-Drefnu ysgolion yn cael eu gwaredu, a hynny yn unol â'r egwyddorion, polisïau gwaredu eiddo a'r gofynion statudol arferol. Rhan greiddiol o'r polisi ôl ddefnydd oedd rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd perchnogaeth o'r eiddo.

Penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad gwerthu penodol ar gyfer pob safle ysgol am sêl bendith y Pwyllgor Ardal perthnasol. Yn dilyn yr ad-drefniad cyfansoddiadol yn 2012, gorffwysa'r awdurdod cyfatebol gyda'r Aelod Cabinet Perthnasol.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Yn achos Ysgol Llwyngwril, er bod cais cychwynol am drosglwyddiad cymunedol wedi ei dderbyn, penderfynnodd y grwp cymunedol i beidio parhau â'r cais hwnw.

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i'r Cyngor sicrhau'r pris gorau posib wrth waredu eiddo. Gan hynny, polisi'r Cyngor yw gwaredu ar y farchnad agored fel bod gan unrhyw un sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Nid oes unrhyw fwriad gwerthu am lai na gwerth y farchnad.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Rhoed cyfle i'r gymuned lunio cynllun busnes er mwyn cymryd perchnogaeth o'r eiddo, ond fe benderfynodd y grwp lleol i beidio a pharhau â'r cais hwnw.

Prif Weithredwr – "Yn amlwg, mae'n siom nad yw'r syniad o ddatblygiad cymunedol ar y safle yn medru parhau ond, os nad oedd yn cynnig ateb hyfyw tymor hir ar gyfer y safle, efallai ei fod yn well cydnabod hynny yn gynt yn hytrach na'n hwyrach. Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu i'r daflen."

Prif Swyddog Cyllid – "Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

Swyddog Monitro – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

Aelod/au Lleol – Y Cynghorydd Louise Hughes
O ystyried fod yr ysgol yn Llwyngwril wedi ei chau yn erbyn dymuniadau'r gymuned gyfan, a methiant y prosiect cymunedol i ddwyn ffrwyth, mae gweld yr ysgol ar werth yn achosi teimlad dwfn o ofid a thristwch. Y mae'r clwyfau sydd wedi eu hachosi o ganlyniad i gau ysgol y pentref yn parhau yn amrwd, a byddent yn cymryd blynyddoedd, os byth, i wella. Mae'r rhaglen ad-drefnu ysgolion cyfan wedi difrodi cymeriad ein cymunedau gwledig, a hyny ar fympwy gwleidyddol. Yn wir, mae'n torri calon.



© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd Council